MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ynglŷn â Thai

Rhagymadrodd

1. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) yn rhoi'r pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd deddfwriaethol sy'n parhau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai Deddf Seneddol ei gwneud (ac o'r herwydd gall addasu deddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaeth newydd), yn unol â'r cymhwysedd a roddir i'r Cynulliad ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 2006.

2. Y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor y mae'r memorandwm hwn yn ymwneud ag ef yw Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheol Sefydlog 22.32 a 22.33. Mae'n esbonio cefndir a chyd-destun Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2009.

3. Byddai'r Gorchymyn drafft yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad ym maes Tai (Maes 11 o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Byddai'n diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 gan fewnosod Mater ynghylch gwaredu tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio gan landlord cymdeithasol at ddibenion darparu tai.

Y cefndir

4. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd ynghylch y “mater” penodedig yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni yng Nghymru. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.

5. Mae tai yn faes pwnc sydd wedi'i ddatganoli ers blynyddoedd lawer ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau eang eu hystod o dan Ddeddf Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd).

6. Yn Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ceir gweledigaeth bod eisiau “i bawb yng Nghymru gael cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy sydd o ansawdd da; a gallu dewis lle maent yn byw a phenderfynu ai prynu neu rentu ydy'r opsiwn gorau iddynt hwy a'u teuluoedd”. Mae'r Strategaeth yn ceisio canolbwyntio ar ansawdd, dewis a hyrwyddo perchenogaeth gynaliadwy ar gartrefi.

7. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi defnyddio ei phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i feithrin dull neilltuol o weithredu sydd wedi'i deilwra i amgylchiadau penodol yng Nghymru sy'n wahanol mewn ffyrdd sylweddol i rai Lloegr. Cymeradwyodd y Cynulliad blaenorol nifer o Offerynnau Statudol ynghylch cynlluniau Perchenogaeth Cartrefi Cost Isel (megis yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael) er mwyn:

   a. lleihau uchafswm y disgownt o £24,000 i £16,000,

   b. estyn nifer yr ardaloedd gwledig lle y caniateir i gyfyngiadau gael eu rhoi ar ailwerthu eiddo a fu gynt o dan y cynllun Hawl i Brynu, ac

   c. caniatáu i landlordiaid “hawl cynnig cyntaf” i ailbrynu unrhyw eiddo y cynigir ei ailwerthu o fewn 10 mlynedd i'r dyddiad y cafodd ei brynu gyntaf o dan y cynllun Hawl i Brynu neu'r cynllun Hawl i Gaffael.

8. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd camau hefyd mewn nifer o feysydd eraill ynghylch tai fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

   a. canllawiau Cynllunio diwygiedig ar Dai Fforddiadwy a Chydastudiaethau ynghylch Argaeledd Tir ar gyfer Tai

   b. arweiniad i Asesu'r Farchnad Dai leol

   c. pecyn cymorth Tai Fforddiadwy (sy'n nodi ystod lawn y pwerau a'r dulliau sydd ar gael i awdurdodau lleol a'u partneriaid i wneud y gorau o'r ddarpariaeth o ran tai fforddiadwy)

   d. cynyddu'r rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol â 72% dros 4 blynedd, a

   e. protocol i'w gwneud yn fwy hwylus i waredu tir dros ben, sydd ym mherchenogaeth y Cynulliad, ar gyfer tai fforddiadwy.

9. Gwneir y cynnig am y pwerau hyn hefyd yng nghyd-destun y terfynau i'r setliad cyfredol sy'n cyfyngu Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn rhai ffyrdd rhag mynd i'r afael â blaenoriaethau a phynciau yng Nghymru. Mewn nifer o feysydd mae pwerau presennol Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol wedi'u cyfyngu. Y prif gyfyngiad ar y trefniadau cyfredol yw'r ffaith nad oes gan y Cynulliad unrhyw bŵer statudol pendant i amrywio darpariaethau'r cynllun Hawl i Brynu a'r cynllun Hawl i Gaffael ynghylch cymhwyster er mwyn diwallu anghenion tai pobl a chymunedau yng Nghymru.

10. Gellir ystyried bod 70% o Gymru yn wledig ei natur. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd nifer o gamau i gynorthwyo'r broses o ddatblygu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig gan gynnwys cymorth i Swyddogion Galluogi ym Maes Tai yng Nghefn Gwlad ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol. Er hynny, mewn rhai cymunedau, ychydig iawn o eiddo sydd ar ôl yn y stoc tai cymdeithasol. Mae bron 60% o'r eiddo ym Mhowys a Cheredigion wedi'i werthu o dan yr Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael.

11. Ers cyflwyno'r Hawl i Brynu (ym 1980) a'r Hawl i Gaffael (ym 1997) mae dros 140,000 o anheddau wedi'u prynu gan denantiaid yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i bron hanner y stoc tai cymdeithasol gwreiddiol (heb gynnwys unrhyw anheddau newydd). Er mai newid deiliadaeth o denant i

berchen-feddiannydd yw effaith uniongyrchol tenant sy'n arfer yr hawliau hyn, mae anheddau a fyddai fel arall wedi dod ar gael i'w hailosod at ddibenion tai cymdeithasol wedi'u gwerthu ar y farchnad agored. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol y nifer o dai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu gan bobl y mae arnynt angen tai. Mae hon yn broblem benodol mewn ardaloedd lle y mae pwysau am dai.

.

12. Yr oedd 1,525 o hawliadau Hawl i Brynu yn ystod y flwyddyn o Orffennaf 2007 i Fehefin 2008. Yn y chwarter o Ebrill i Fehefin 2008, yr oedd 1,581 o aelwydydd yn ddigartref a'u hangen yn fater o flaenoriaeth, tra'r oedd 2,874 o aelwydydd mewn llety dros dro (gan gynnwys sefydliadau gwely a brecwast). Er gwaethaf y camau a amlinellwyd uchod, mae lefel digartrefedd yn parhau i fod yn sylweddol tra bod maint y stoc tai cymdeithasol yn parhau i ostwng.

13. Er mwyn cymryd camau pellach ynghylch tai fforddiadwy, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu bod angen pwerau ychwanegol arni i'w galluogi i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad o dan bwerau a geir yn Neddf 2006.

14. Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru “Cymru'n Un” yn cynnwys ymrwymiad i fynnu pŵer deddfwriaethol i'r Cynulliad er mwyn atal y cynllun Hawl i Brynu yn yr ardaloedd lle y mae pwysau am dai.

15. Mae hyn yn canlyn ymlaen o'r ymrwymiadau maniffesto a gyflwynwyd gan y ddwy blaid yn etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Yr oedd maniffesto Llafur yn cynnwys ymrwymiad i geisio pwerau deddfwriaethol newydd er mwyn cadw'r gronfa o dai sydd ar gael i'w rhentu mewn ardaloedd lle y mae angen mawr am dai, fel un dull i wella argaeledd tai fforddiadwy. Yr oedd maniffesto Plaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ddiddymu'r Hawl i Brynu mewn ardaloedd â phroblem tai lle y mae prinder anheddau ar rent.

16. Byddai'r Gorchymyn drafft yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w alluogi i basio Mesurau Cynulliad mewn maes polisi diffiniedig yn ymwneud â gwaredu tir gan landlord cymdeithasol landlord sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion darparu tai. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio atebion Cymreig i fynd i'r afael â blaenoriaethau Cymru.

Adroddiadau o Bwyllgorau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Senedd ar y Gorchymyn Arfaethedig

17. Cafodd y Gorchymyn drafft hwn ei baratoi yn dilyn craffu ar y Gorchymyn arfaethedig y mae'r Gorchymyn drafft hwn yn ymwneud ag ef. Cafodd Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Tai Fforddiadwy ei sefydlu ar 12 Rhagfyr 2007. Cyhoeddodd ei brif adroddiad ar 18 Ebrill 2008, ac yn dilyn diwygiadau i'r Gorchymyn, cyhoeddodd adroddiad atodol ar 17 Gorffennaf 2008.

18. Yr oedd prif adroddiad y Pwyllgor wedi gwneud awgrymiadau ynghylch y derminoleg yn y ddogfen a gwnaeth gais y dylai'r Gorchymyn gyfeirio'n benodol ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cytunodd mwyafrif y Pwyllgor y dylid rhoi i'r Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol y gwnaed cais amdano, ac argymhellodd y dylai'r Gorchymyn fod yn lletach ei gwmpas gan gynnwys darpariaethau ynghylch tai fforddiadwy yn gyffredinol. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Lywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gallai'r system gynllunio gefnogi'r ymdrech i ehangu tai fforddiadwy.

19. Ar ôl derbyn prif adroddiad Pwyllgor y Cynulliad, a chyda cytundeb Llywodraeth y DU, gwnaed diwygiadau i'r Gorchymyn. Yr oedd y diwygiadau'n ehangu'r cwmpas i gynnwys trosglwyddo stoc, diwygio'r diffiniad o landlordiaid cymdeithasol; a gwneud rhai newidiadau technegol pellach.

20. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod yr angen bod polisi cynllunio yn cefnogi mesurau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Yn ychwanegol at y camau a osodir ym mharagraff 8 uchod, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi Datganiadau Cyflenwi Tai Fforddiadwy er mwyn dwyn ynghyd fecanweithiau polisi cynllunio a chyflenwi tai. Ystyrir felly bod y polisïau a'r pwerau angenrheidiol yn barod ar gyfer defnyddio'r system gynllunio i gyflenwi tai fforddiadwy.

21. Croesawodd adroddiad atodol Pwyllgor y Cynulliad yr ailddrafftio ac ehangu'r cwmpas ond yr oedd o'r farn nad oedd hyn yn mynd yn ddigon pell. Er hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried bod y Gorchymyn yn cwmpasu maes eang o gymhwysedd sy'n ddigonol i roi ar waith ei bwriad cyfredol ynghylch polisi, tra bydd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol**.**

22. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad ar Orchymyn drafft arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008 ar 14 Hydref 2008. Yr oedd yn cefnogi nod y Gorchymyn arfaethedig ond gwnaeth nifer o argymhellion gyda thuedd gryf ynddynt i gyfyngu'r cymhwysedd deddfwriaethol a fyddai'n cyflawni bwriad y polisi o dan sylw.

23. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid gadael allan yn benodol y diddymiad o'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael o'r Gorchymyn drafft. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd nifer o argymhellion eraill i ddiwygio'r Gorchymyn i adlewyrchu bwriad y polisi gan gynnwys:

    a. y dylai'r ataliad fod yn gymwys ond mewn ardaloedd lle y mae pwysau mawr am dai, ac nid drwy Gymru gyfan;

    b. y dylai fod terfyn ar gyfnod yr ataliad; ac

c. y dylai ceiswyr allu dangos mesurau i wella'r rhagolygon yn yr hirdymor o ran bodloni'r angen am dai.

24. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ei bod yn parhau i fod yn briodol i gwmpas y cymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd i'r Cynulliad gwmpasu pob gwarediad ar dir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai gan landlordiaid tai cymdeithasol. Mae hyn yn faes polisi tai sydd ar wahân, ac mae gan Weinidogion Cymru eisoes gyfrifoldeb gweithredol amdano. Ar yr un pryd, nid oedd y pŵer i ddiddymu'r Hawl i Brynu yn un o amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth geisio pwerau i'r Cynulliad o ran y maes polisi hwn. Gwnaed diwygiadau i'r Gorchymyn drafft mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor i beidio â chynnwys diddymu'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael o'i rychwant. Effaith y diwygiadau hyn fydd cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny pan fyddai'r Cynulliad yn gallu diddymu'r Hawl i Brynu, i'r amgylchiadau pan fydd Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gytûn. Er hynny, nid yw'r diwygiadau'n cyfyngu ar bŵer y Cynulliad i ddeddfu ynghylch yr Hawl i Brynu drwy ddulliau heb olygu ei ddiddymu, a chan hynny sicrhau y gellir cyflawni'r diben gwreiddiol y ceisiwyd y pwerau ar ei gyfer. Byddai'r diwygiadau hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad drwy Fesur ddatgymhwyso'r Hawl i Brynu o ran mathau arbennig o eiddo, megis adeiladau newydd.

.

25. Mae argymhellion eraill yn adroddiad y Pwyllgor, y ceir crynodeb ohonynt ym mharagraff 23, sy'n ymwneud â manylion unrhyw gynnig i atal yr Hawl i Brynu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn fwy priodol i Lywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â hwy wrth ddrafftio Mesur Cynulliad.

26. Cafodd tri newid arall eu gwneud ers i'r Gorchymyn gael ei ystyried gan y Pwyllgor Materion Cymreig o dan erthygl 2(1) o'r Gorchymyn (yn mewnosod Mater 11.1) yn y diffiniad o "landlord cymdeithasol":

27. Yn gyntaf, ychwanegwyd cyfeiriad at ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig o dan Bennod 3 o Ran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Mae hyn yn cyfeirio at fath o landlord a gyflwynir gan y Ddeddf sydd â'i brif swyddfa yn Lloegr ac sydd wedi'i gofrestru gan y Swyddfa ar gyfer Tenantiaid a Landlordiaid, ond a allai fod â chanddo ddaliadau yng Nghymru.

28. Yn ail, mewnosodwyd person y talwyd grant iddo o dan adran 27A o Deddf Tai 1996. Ni chafodd yr adran hon ei chychwyn hyd yn hyn, ond mae'n ymwneud â thalu grantiau i landlordiaid heblaw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac o'r herwydd ychwanegwyd y cyfeiriad er mwyn bod yn gyflawn.

29. Yn drydydd, cafodd y cyfeiriad at y Comisiwn ar gyfer Trefi Newydd ei dynnu oddi yno. Mae'r corff hwn yn y broses o gael ei ddiddymu ac nid yw'n dal unrhyw anheddau yng Nghymru a fyddai'n ddarostyngedig i'r

Hawl i Brynu.

Cwmpas

30. Byddai'r Gorchymyn drafft yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 gan fewnosod Mater o dan Faes 11: tai. Mae Mater 11.1 yn ymwneud â gwaredu tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai gan landlord cymdeithasol. At ddibenion mater 11.1, mae gwaredu tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai yn cynnwys, yn benodol, gwaredu tir y mae unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn gymwys iddo-

    (a) darpariaeth yn Rhan 2 o Ddeddf Tai 1985 (yn cynnwys gwaredu tir o dan adran 32 (tir sy'n cael ei ddal at ddibenion tai) ac adran 43 (gwaredu heb fod o fewn adran 32) o Ddeddf Tai 1985);

    (b) darpariaeth yn Rhan 5 o Ddeddf Tai 1985 (yr Hawl i Brynu).

    (c) darpariaeth ym Mhennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 (yn cynnwys gwaredu tir gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a'r Hawl i Gaffael);

    (d) darpariaeth ym Mhennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 (yn cynnwys gwaredu tir gan Reolwr a benodwyd o dan Ran 1).

31. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i gyflwyno Mesurau o dan Ran 3 o Ddeddf 2006 ynghylch gwaredu tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai gan landlord cymdeithasol, yn benodol gwaredu tir y mae unrhyw un o'r darpariaethau a amlinellir yn (a)-(d) uchod yn gymwys iddo.

32. Mae'r Gorchymyn drafft yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 sy'n ymdrin â chyfyngiadau cyffredinol ar bŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio Mesurau. Byddai'r diwygiad yn rhwystro darpariaeth bod Mesur Cynulliad yn diddymu'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Brynu a Ddiogelwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Tai 1985 neu ddiddymu'r Hawl i Gaffael o dan Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 yng Nghymru. Gwnaed darpariaeth fel na fydd y canlynol yn cael ei ystyried fel diddymiad o'r cyfryw hawl:

    (a) Ataliad o'r hawl mewn amgylchiadau penodol;

    (b) Addasu'r hawl gan beri iddi beidio â bod yn gymwys ynghylch dosbarthiadau penodol o annedd.

33. Mae cwmpas y Gorchymyn gan hynny'n cynnwys cymhwysedd i atal yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Ddiogelwyd a'r Hawl i Gaffael mewn ardaloedd lle y mae pwysau am dai yn unol ag ymrwymiad rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

34. Mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn diwygio Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, sy'n ymdrin ag eithriadau o Ran 2. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol

a Gweinidogion Cymru yn cydsynio, ni rwystrir Mesur Cynulliad rhag diddymu'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Brynu a Ddiogelwyd o dan Ran 5 o Deddf Tai 1985 neu ddiddymu'r Hawl i Gaffael o dan Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996.

35. Felly, prif ddiben y Gorchymyn hwn yw rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i basio Mesurau o dan Ran 3 o Ddeddf 2006 a fydd yn rhoi effaith i bolisïau Gweinidogion Cymru a anelwyd at wella'r sefyllfa bod "tai fforddiadwy" ar gael yng Nghymru, ac eithrio na ellir diddymu'r Hawl i Brynu neu'r Hawl i Gaffael a'r Hawl i Brynu a Ddiogelwyd yng Nghymru oni fydd Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth. Mae cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i'w rhentu ac i'w prynu yn faes sydd â blaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

36. Mae Adran 94 o Ddeddf 2006 yn gwahardd unrhyw Fesur Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'n darparu na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os cymhwysir hi ac eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarpariaethau'r Mesur gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

Swyddogaethau Gweinidogion y Goron

37. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynddo'i hun yn ceisio addasu na thynnu oddi ar unrhyw un o Weinidogion y Goron unrhyw swyddogaethau sydd ganddo. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y Casgliad

38. Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig y dylid estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2008.

Jocelyn Davies
Y Dirprwy Weinidog dros Dai
12 Ionawr 2009